
# Llwybr Minffordd, Cader Idris

**ANODD/LLAFURUS**




### Trosolwg o'r Daith


- Pellter: 9km (5.6 milltir)
- Hyd: 6 awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl

### ⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20231127/2031





Ewch drwy'r giât mochyn ger y toiledau ym mhen pella'r maes parcio. Ewch i'r dde a dilyn y llwybr trwy giât fochyn arall. Parhewch heibio'r ganolfan ymwelwyr a thros y bont.





Ewch drwy giât fechan wrth waelod y grisiau. Ar ôl dringo yn serth, ewch drwy giât fechan arall mewn wal gerrig. Byddwch yn dod i ddiwedd y goedwig ac yn cyrraedd tir mynydd agored.





Ymhen oddeutu 200m, byddwch yn cyrraedd fforch. Cadwch i'r chwith yma gan gadw'r afon ar eich dde. Peidiwch â mynd dros y bont. Ymhen amser, byddwch yn pasio adfeilion ar eich chwith. Wrth i'r llwybr lefelu, daw clogwyni Craig Cau i'r golwg.





Wrth i'r tir lefelu, fe welwch ardal gorsiog o'ch blaen. Ewch i'r chwith o amgylch yr ardal yma. Dilynwch y llwybr i fyny'r allt nes i chi gyrraedd fforch yn y llwybr. Gwnewch yn siŵr wrth ddychwelyd eich bod yn dilyn yr un llwybr yn ôl.





Cadwch i'r chwith pan gyrhaeddwch fforch yn y llwybr gan anelu am y copa. Mae'r llwybr i'r dde yn arwain am Llyn Cau.





Dilynwch y llwybr hyd nes i chi gyrraedd ardal gwastad fechan lle gallwch fwynhau golygfa o'r llyn a'r clogwyni. Parhewch i ddringo nes i chi gyrraedd y grib lle, ar ddiwrnod braf, bydd golygfeydd godidog i lawr am ganolbarth Cymru. Rydych chi wedi cyrraedd hanner ffordd yn fan hyn.




Mae'r llwybr wedi ei farcio'n glir â charneddau yn y fan yma ac yn ymdroelli'n serth i fyny heibio band o gerrig gwynion mewn craig ar eich dde. Bydd gwyriad byr oddi ar y llwybr i'r chwith yn rhoi golygfa dda i chi o ddyffryn Tal-y-llyn. Ymhen amser, bydd y llwybr yn lefelu cyn dechrau dringo yn serth ger hafn amlwg ar eich chwith.




Bydd y llwybr yn serth, rhydd ac yn diodde'n ddrwg o erydiad wrth i chi ddringo i gopa Craig Cau. Byddwch yn ofalus iawn yma, yn enwedig yn y gaeaf. Ewch dros y gamfa amlwg ar ffens ar gopa Craig Cau.




Dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y clogwyni sy'n arwain yn serth lawr i Fwlch Cau. Ar y dde fe welwch rigol garegog peryglus a adnabyddir fel 'Ffos Bwlch Cau'. Mae'r rhigol yn arwain i lawr am Llyn Cau. Nodwch y man yma ar fel tirnod ar eich ffordd yn ôl.

10



Mae'r llwybr nawr yn dringo'n serth am y tro olaf. Mae'r rhan hon yn llithrig, yn rhydd, ac yn dioddef o erydiad. Cadwch at y llwybr i atal yr erydiad rhag lledaenu. Dilynwch yr adran igam-ogam byr i'r copa.

11



Ymhen ychydig funudau o sgrialu, byddwch yn cyrraedd y copa. Mae cysgodfan yn agos i'r copa sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan Wasanaeth Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri.

12



Wrth i chi ddychwelyd o'r copa, dilynwch y llwybr heibio adfeilion gyda hen le tân. Tua 25m ar ôl y lle tân, mae'r llwybr yn fforchio. Cadwch i'r chwith yn fan hyn—mi aiff a'r llwybr ar y dde â chi i lawr ochr gogleddol y mynydd.